O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2017 Rhif 716 (Cy. 172)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 24 (Y Coldra) i Gyffordd 28 (Parc Tredegar), Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Mehefin 2017* |
| *Yn dod i rym* | *4 Gorffennaf 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Drafffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r drafffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y drafffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Gorffennaf 2017 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 24 (Y Coldra) i Gyffordd 28 (Parc Tredegar), Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2017.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r awyrlu ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 4 Gorffennaf 2017 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y drafford" *("the motorway")* yw Traffordd Llundain i Dde Cymru yr M4 rhwng Cyffordd 24 (y Coldra) a Chyffordd 28 (Parc Tredegar) yn Ninas Casnewydd;

ystyr "lluoedd arbennig" *("special forces")* yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### Gwaharddiad a Chyfyngiad

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen 1.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2.

### Atal Dros Dro

**5.** Mae darpariaethau rheoliad 3 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974(**2**), i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2, drwy hyn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

(**2**) O.S. 1974/502

**6.** Mae darpariaethau Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man i'r Gorllewin o Gyffordd 23A (Magwyr) i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 29 (Cas-bach)) (Terfynau Cyflymder Amrywiadwy) 2015(**3**), i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r drafford a bennir yn Atodlen 2 drwy hyn wedi eu hatal dros dro yn ystod yr adegau hynny y bydd y cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**7.**—(1) Ni fydd y gwaharddiad a'r cyfyngiad yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 30 Mehefin 2017

*Nina Ley*
Pennaeth Yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o brif gerbytffordd tua'r gorllewin y drafford sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 25a (Grove Park) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 26 (Malpas).

Y darn o brif gerbytffordd tua'r dwyrain y drafford sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 26 (Malpas) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 25a (Grove Park).

(**3**) O.S. 2015/1018 (Cy.72)

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y draffordd wrth Gyffordd 26 (Malpas).

Y darn o brif gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd wrth Gyffordd 24 (y Coldra) sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin.

Y darn o brif gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar) sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain.

**ATODLEN 2**
**Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro**

Y darn o brif gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 25a (Grove Park) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 26 (Malpas).

Y darn o brif gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 26 (Malpas) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 25a (Grove Park).

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y draffordd wrth Gyffordd 26 (Malpas).